# Mentrau ac ymgyrchoedd y llywodraeth sy'n cyfrannu at wella iechyd, llesiant a gwydnwch y boblogaeth yng Nghymru

## Safon Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol

cbac wjec

**Beth yw ffynhonnell ymgyrchoedd a mentrau?**

Pobl, gwleidyddiaeth, amgylchedd a chymdeithas Cymru yw ffynonellau mentrau ac ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru. Yn ddiweddar, comisiynodd Llywodraeth Cymru Adolygiad Seneddol o Ddyfodol Hirdymor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Nododd panel rhyngwladol o arbenigwyr fod angen "chwyldro mewnol" er mwyn ysgogi'r newidiadau sydd angen eu gwneud i'r system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau y gall Cymru ddiwallu anghenion y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Yn ôl yr Adolygiad Seneddol, mae'r GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru yn wynebu nifer o heriau gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio, newidiadau o ran ffordd o fyw, disgwyliadau'r cyhoedd a thechnolegau meddygol newydd. Penderfynodd yr Adolygiad na fyddai systemau iechyd a gofal cymdeithasol ar wahân yn gallu diwallu anghenion pobl Cymru yn y dyfodol.

Yn seiliedig ar yr adolygiad hwn, mae Cymru wedi mynd ati i sefydlu Byrddau Iechyd Lleol integredig a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol statudol. Yn ogystal â hyn, mae pwerau deddfwriaethol newydd wedi arwain at gyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), a mentrau pwysig fel y gwaharddiad ar smygu mewn mannau cyhoeddus a'r cynllun optio allan ar gyfer rhoi organau. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi strategaeth "iechyd ym mhob polisi" sy'n ystyried iechyd a llesiant ym mhob un o bolisïau'r llywodraeth ym meysydd tai, rhianta, addysg a chyflogadwyedd, sef Ffyniant i Bawb. Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu dwyn ynghyd a'u hailgynllunio yn seiliedig ar anghenion a dewisiadau unigolion a'r nod o gadw pobl yn iach. Nod y llywodraeth yw darparu system lle y caiff gwasanaethau gan bob darparwr eu cydgysylltu'n llawn. Y nod yw gwneud gwahaniaeth i'r ffactorau cymdeithasol ac economaidd sy'n dylanwadu ar iechyd a llesiant. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi rôl ganolog i'r unigolyn yn hyn, gan annog pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain

Mae'r llywodraeth, mewn partneriaeth â GIG Cymru, yn cefnogi ystod eang o fentrau a rhaglenni gofal iechyd ledled Cymru ar lefel genedlaethol a lleol. Yn eu plith, mae adnoddau sy'n hyrwyddo hunanofal a ffyrdd iach o fyw.

**Sut mae ymgyrchoedd a mentrau yn bwriadu gwneud gwahaniaeth/cynnig gwelliant i iechyd, llesiant a gwydnwch pobl yng Nghymru.**

Nod ymgyrchoedd a mentrau'r llywodraeth yw gwella iechyd y boblogaeth drwy ein hannog i gymryd cyfrifoldeb am ein hiechyd ein hunain drwy ddylanwadu ar ein credoau a'n hagweddau. Er mwyn gwella ein hiechyd, ein llesiant a'n gwydnwch, mae'r llywodraeth eisiau ein darbwyllo i roi'r gorau i ymddygiadau a dewisiadau ffordd o fyw sy'n niweidiol ac a allai effeithio ar ein bywydau. Er mwyn cyflawni hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu sefydliadau i roi gwybodaeth i bobl yng Nghymru. Mae'r sefydliadau hyn hefyd yn llunio rhaglenni a fydd yn rhoi cymorth, cyngor a chefnogaeth ymarferol i'r cyhoedd i'w helpu i wella eu ffordd o fyw yn seiliedig ar fentrau ac ymgyrchoedd y llywodraeth. Un enghraifft o hyn fyddai Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru a gafodd ei lansio yn 1999 er mwyn hyrwyddo iechyd, llesiant a gwydnwch ymhlith plant yng Nghymru. Mae ysgolion yn mynd ati i hyrwyddo a diogelu iechyd corfforol, meddyliol a chymdeithasol plant drwy hyrwyddo ymarfer corff ac arferion bwyta'n iach, drwy gefnogi eu datblygiad personol a chymdeithasol a thrwy fynd i'r afael â materion fel camddefnyddio sylweddau.

**Sut mae'r llywodraeth yn mynd ati i ddatblygu ymgyrchoedd a mentrau.**

Caiff ymgyrchoedd a mentrau eu datblygu am nifer fawr o resymau, gan gynnwys dadansoddiad ystadegol o iechyd a llesiant y genedl gan gyrff rheoliadol a chyhoeddus fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, y GIG ac ati. Os yw'r llywodraeth yn pryderu ynghylch agwedd benodol ar iechyd y cyhoedd, bydd yn aml yn comisiynu adolygiad annibynnol gan arbenigwyr er mwyn nodi'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r broblem. Mae'r adolygiadau hyn yn gwneud argymhellion a gaiff eu defnyddio gan y llywodraeth i lunio strategaethau ar gyfer ymgyrchoedd a mentrau. Caiff Llywodraeth Cymru ei dylanwadu gan y ffordd rydym yn byw ein bywydau yng Nghymru ac mae'n creu mentrau gyda'r nod o wella ein hansawdd bywyd, fel trechu tlodi.  Caiff gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'r ffordd y cânt eu darparu eu dylanwadu gan adolygiadau o'r gwasanaethau hyn a chanlyniadau'r adolygiadau hynny. Caiff gwelliannau eu gwneud yn seiliedig ar yr adolygiadau hyn drwy fentrau, ymgyrchoedd a newidiadau i strategaeth y llywodraeth. Caiff y llywodraeth ei dylanwadu'n aml gan grwpiau yn ein cymdeithas sy'n ceisio gwella canlyniadau i rannau penodol o'r boblogaeth neu'r boblogaeth gyfan. Enghraifft o hyn yw'r system optio allan ar gyfer rhoi organau. Arweiniodd ymgyrch i newid y system at newid ym mholisi'r llywodraeth ar y mater. Mae llawer o grwpiau ymgyrchu sy'n dylanwadu ar bolisïau sy'n ymwneud â phlant, yr henoed a'r rhai sydd ag anableddau.

**Pa ffurfiau y gall ymgyrchoedd a mentrau eu cymryd.**

Mae llawer o wahanol fathau o ymgyrchoedd a mentrau sy'n rhoi gwybodaeth, anogaeth, cyngor a chymorth er mwyn helpu pobl i fyw bywydau iachach. Enghraifft o hyn yw datblygiad system integredig sy'n cwmpasu holl wasanaethau gwrthysmygu'r GIG ledled Cymru. Y cam cyntaf tuag at y datblygiad hwn oedd lansio'r gwasanaeth Helpa Fi i Stopio ym mis Ebrill 2017. Cyflwynodd y gwasanaeth hwn, a ddatblygwyd gan Is-grŵp Rhoi'r Gorau i Smygu Bwrdd Strategol Rheoli Tybaco Llywodraeth Cymru, fesurau eang i leihau nifer y smygwyr yng Nghymru, gan gynnwys gwaharddiad ar smygu mewn mannau cyhoeddus. Mae rhaglenni wedi cael eu rhoi ar waith ledled Cymru hefyd gan gynnwys y rhaglen 1000 Diwrnod Cyntaf. Nod y rhaglen honno yw gwella canlyniadau i ferched beichiog a'u plant yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf. Ceir hefyd strategaethau fel Strategaeth Tlodi Plant Cymru. Mae'r strategaeth honno, y bwriedir iddi ddileu tlodi plant yng Nghymru, yn seiliedig ar yr ystadegau a ddangosodd bod traean o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi yn 2011.  Nod y strategaeth yw dileu tlodi plant yng Nghymru.

**Sut mae ymgyrchoedd a mentrau yn cael eu gwerthuso a pha welliannau y maent yn eu cyflwyno.**

Mae'n bwysig bod y llywodraeth yn mynd ati i werthuso ymgyrchoedd a mentrau er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio a'u bod o fudd i bobl Cymru. Bydd y llywodraeth yn edrych ar ystadegau i weld, er enghraifft, a yw'r ymgyrch 'Helpa Fi i Stopio' yn llwyddo i leihau nifer y smygwyr yng Nghymru. Bydd hyn yn ei helpu i benderfynu a ddylai ymgyrchoedd barhau, a oes angen eu newid mewn unrhyw ffordd ac a ddylid parhau i'w hariannu. Mae'n bwysig adolygu a gwerthuso mentrau ac ymgyrchoedd drwy waith ymchwil a thrwy edrych ar ddata ac ystadegau. Os nad oes angen ymgyrch mwyach neu os nad yw'n gwella iechyd y cyhoedd mwyach, mae'n bosibl y gallai'r arian gael ei wario yn well yn rhywle arall. Caiff adroddiad ei lunio ac yna caiff strategaeth y llywodraeth ei llywio gan y canfyddiadau a'r penderfyniadau a wneir ynghylch pa fentrau ac ymgyrchoedd sydd eu hangen fwyaf er mwyn gwella iechyd, llesiant a gwydnwch y boblogaeth yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Dechrau'n Deg Flying Start

HELPA FI I STOPIO HELP ME QUIT 0800 085 2219